Mwynhau dysgu a llwyddo gyda'n gilydd.

# Ysgol Carreg Emlyn

Clocaenog, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 2AY

Tel: Clocaenog 01824 750636 Cyffylliog 01824 710274

ysgol.carreg.emlyn@sirddinbych.gov.uk

www.ysgolcarregemlyn.cymru

@carregemlyn

## Newyddion 26/6/17 News

### Holiaduron Rhieni

### *Parents Questionnaires*

Byddwn yn gyrru holiaduron i chi lenwi mewn yr wythnos yma. Gofynnwn i bob teulu eu llenwi fel ein bod yn medru defnyddio'r wybodaeth i weld beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei newid o fewn yr ysgol. Gawn ni nhw nôl erbyn Gorffennaf 7fed os gwelwch yn dda. *We are sending home questionnaires for you to fill in this week. Please can each family fill them in so that we know what works well and what needs changing in school. Could we please have them back by Friday July 7th.*

### Cogyddion Bl 6 / Yr 6 Chefs

Bu Katie a Lola yn cystadlu yn Sialens Goginio Gwyl Haf Dinbych yr wythnos diwethaf. Daeth Katie yn gyntaf a Lola yn 4ydd – ardderchog! *Katie and Lola took part in a cooking competition in Denbigh last week. Katie came first and Lola came 4th – excellent!*



### Dyddiadau i'w Cofio

### *Dates for your Diary*

**26/6/17** Bl 1 a 2 yn ymweld a Bod Petryal / Yr 1 & 2 visit to Bod Petryal – am.
**26/6/17** Cyngerdd Ysgolion Gwyl Rhuthun / *Ruthin Festival Schools' Concert* Ysgol Brynhyfryd 7pm
**27/6/17** Clwb Chwaraeon Bl 3 a 4/*Yr 3 & 4 Sports Club*
**27/6/17** Clwb Garddio Bl 5 a 6/*Yr 5 & 6 Sports Club*
**27/6/17** Athletau Talaith y Gogledd yr Urdd *North Wales Region Athletics.* Parc Eirias 6pm
**28/6/17** Gweithgaredd 'CSI' i Bl 5 / *Yr 5 'CSI' activity* – Ysgol Brynhyfryd – am.
**29/6/17** Pnawn Chwaraeon Pontio Bl 6 / *Yr 6 Transition Sports Afternoon* Ysgol Brynhyfryd.
**30/6/17** Gwasanaeth Gadael Bl 6 – Eglwys Sant Pedr, Rhuthun / *Yr 6 Leaving Service, St Peter's Church, Ruthin* – pm
**30/6/17** Rhostio Mochyn – Noson Gymunedol yng Nghlocaenog / *Hog Roast – Clocaenog Community evening @6.30pm*
**4/7/17** Triathalon/Aquathon – CA2 / KS2 - Ysgol Brynhyfryd - am
**4 & 18/7/17** Clwb Chwaraeon Bl 5 a 6 / *Yr 5 & 6 Sports Club*
**4 & 18/7/17** Clwb Garddio Bl 3 a 4 / *Yr 3 & 4 Gardening Club*
**4 /7/17** Noson Wybodaeth Bl 6 / *Yr 6 Information Evening* – Ysgol Brynhyfryd
**5 & 7/7/17** Cwrs Beicio Bl 6 / Yr 6 Bikeability Course.
**6/7/17** Diwrnod Anwytho / *Transition Day*
**10/7/17** Mabolgampau Dyffryn Clwyd / *Vale of Clwyd Sports – am.*
**11/7/17** Mabolgampau'r Ysgol / *School Sports* – 1-3 pm. Mwy o fanylion i ddilyn / *More information to follow.*
**11/7/17** Clwb Chwaraeon Bl 5 a 6 / *Yr 5 & 6 Sports Club*
**11/7/17** Clwb Garddio Bl 3 a 4 / *Yr 3 & 4 Gardening Club*
**18/7/17** Cyngerdd - Dathliad yr Haf / *Summer Celebration - concert.* 6.30pm Canolfan Cae Cymro
**19/7/17** Trip CA2 i Brenig / *KS2 trip to Brenig*
**21/7/17** Ysgol yn Cau / School Closes
**4/5/17** Diwrnod Hyfforddiant Staff / *Staff Training Day*
**5/9/17** Ysgol ar agor i'r plant / School reopens for the children

**Gweithgaredd**
***'Crime Scene Investigation' Activity***

Bydd plant Bl 5 yn mynd i Ysgol Brynhyfryd fore Iau i gael gweithgaredd cyffrous iawn yn ôl y son! Byddant yn cael sesiwn 'CSI' ac yn ceisio darganfod pwy yw'r drwgweithredwr! Dwi'n siwr y byddant i gyd yn mwynhau y sesiwn gyda ysgolion eraill yr ardal. *Yr 5 will be going to Ysgol Brynhyfryd on Thursday for what should be a very exciting activity. They will be having a CSI session and trying to find out who the villain is! I'm sure they will have an interesting morning with other schools from the area.*

**Gwasanaeth Gadael / Leaver's Service**

Bydd plant Blwyddyn 6 yn ymuno a phlant eraill yr ardal yn Eglwys Sant Pedr bnawn Gwener. Byddant yn cael gwasanaeth arbennig yng ngofal Y Parchedig Richard Carter i ffarwelio a nhw ac i ddymuno'n dda iddynt yn yr ysgol uwchradd. *Yr 6 children will be joining other children from the area at St Peter's Church, Rhuthun on Friday afternoon. They will have a special service led by Reverend Richard Carter to say farewell to them and to wish them well in secondary school.*

**Dysgu am yr Eidal**
***Learning about Italy***

Daeth cyn ddisgybl, sef Erin Lloyd i siarad gyda plant Bl 1 a 2 am fywyd yn yr Eidal. Bu mam Erin yn byw yn yr Eidal am flynyddoedd ac mae Erin wedi ymweld a'r wlad hefyd. Dysgodd y plant lawer am y wlad yn ei chwmni. *Erin Lloyd, who used to be a pupil in school, came to talk to the children about life in Italy. Erin's mum lived in Italy for a few years and Erin has also visited the country. The children learnt a lot about the country from her interesting talk.*



**Cofiwch y bydd angen i'r Parti Unsain a Grwp Actio Bl 4 y Cwis Llyfrau fod yn Ysgol Brynhyfryd erbyn 6.50pm HENO er mwyn perfformio yng Nghyngerdd Ysgolion Gwyl Rhuthun**
***A reminder that the Unison Party and the Yr 4 Book Quiz performers need to be at Ysgol Brynhyfryd by 6.50pm TONIGHT to perform in The Ruthin Festival Schools Concert.***

**Seren yr Wythnos**

Llongyfarchiadau i Ffion a Siwan am fod yn ser yr wythnos. Da iawn chi!



**Prynhawn Chwaraeon Bl 6**
***Yr 6 Sports Afternoon***

Cofiwch y bydd Prynhawn Chwaraeon Bl 6 bnawn Iau. Bydd angen i chi drefnu i fynd a'ch plentyn i Neuadd Chwaraeon Ysgol Brynhyfryd mewn dillad chwaraeon erbyn 1.15pm. Efallai y gallwch drefnu drwy eich gilydd. Byddant yn cael teithio adref ar y bws ysgol. Gadewch i'r ysgol wybod os ydych yn cael trafferthion gyda'r drafnidiaeth er mwyn i ni eich helpu. *A reminder that it is the Sports Afternoon for Yr 6 on Thursday. You will need to organise for your child to be in the Sports Hall at Ysgol Brynhyfryd in sports clothes by 1.15pm. Maybe you could organise lifts amongst each other. The children can travel home on the school bus. Please let the school know if you have any difficulties sorting out transport so that we can help.*

**Cwis Llyfrau Bl 3 a 4**
**Yr 3 & 4 Book Quiz**

Cafodd y tim cwis llyfrau ddiwrnod prysur iawn yn cymeryd rhan yn y rownd genedlaethol yn Aberystwyth dydd Mercher diwethaf. Roedd rhaid iddynt gychwyn o'r ysgol yn gynnar ac yna cawsant drafod, actio a chael gweithdy gyda Ani Llyn sydd yn gyn Fardd Plant Cymru. Cawsant eu henwi fel un o'r grwpiau oedd yn agos i'r brig – ardderchog! Diolch yn fawr iawn i Mrs Ellis a Miss Smith am weithio gyda'r plant yn eu hamser cinio er mwyn eu paratoi at y gystadleuaeth. *Yr 3 & 4 book quiz team had a busy day in the national round in Aberystwyth last Wednesday. They started from school very early and then acted, discussed a book and had a workshop with Ani Llyn – last year's Children's Poet for Wales. The team were named as one of the ones very near to getting a prize! A huge thanks to Mrs Ellis and Miss Smith for working with the children during their lunchtimes to prepare them for the competition.*

***Diogelwch yr Haul / Sun Safety***

Llongyfarchiadau i Orla ac Annie am ennill cystadleuaeth i lunio poster Diogelwch yr Haul. Byddwn yn eu harddangos yn yr ysgol i atgoffa pawb. *Congratulations to Orla and Annie for winning competition to design a Sun Safety poster. We will display them in school to remind everyone.*




Cadwch yn ddiogel yn yr haul
Gwisgwch het a
sbectol haul
Gwisgwch eli haul
Yfwch
digon o
dowr


Cadwnddiogel yn yr HAUL!
Arhoswch yn y cysgod!
Rhowch eli haul ymlaen cyn dod i'r ysgol!
Yfwch digon o DDŴR!
Gwisgwch spectol HAUL!
Gwisgwch het HAUL!












## Diwrnod da yn y Cwis Llyfrau



**Lluniau tripiau CS yr wythnos nesaf.**
**Photos of the FPh trips next week.**